# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12ed Medi 2022

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry, Sioned Pearson, Catrin Williams
Ymddiheuriadau: John Davies, Alan Hughes

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb. Llongyfarchwyd Alyn Williams ar endeigaeth ei blentyn, ac fe groesawyd Catrin Williams fel Cynghorydd newydd.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Cyfetholwyd Sian Parri fel Cynghorydd Ward Llangwnnadl.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:
    a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Eglurodd Chris Brady mai cyfgrifoldeb y Stad yw'r odyn – bydd yn holi Carter Jonas as hyn. Yn y cyfmser bydd y Clerc yn cyflwyno cais am bwrdd hysbysu I'w osod ar wal y post.
    b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog –** Derbynwyd ebost gan y swyddog Iwan ap Trefor yn ymddiheuro am yr oedi, ac hefyd yn cyflwyno swyddog newydd Andrew Roy Gregson a fydd yn cysylltu'n fuan i drefnu cyfarfod ar y safle. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Andrew Gregson i'w atgoffa.
    c. **Tir Garnfadryn –** Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adrad priodol yn Cyngor Gwynedd .
    ch. **Croes ar Ben Garn Fadryn –** Cafodd y Clerc air hefo'r Parch Kevin Ellis a chafodd gadarnhad fod yr Eglwys yng Nghymru yn cymeryd cyfrifoldeb o'r groes – bydd yn anfon cadarnhad o hyn drwy ebost
    d. **Cyfethol – 2 sedd wag –** Mae dwy sedd wag (Ward Tudweiliog a Dinas) yn parhau o fewn y Cyngor, mae'r cyfnod hysbyseb wedi

pasio, bydd yn Cynghorwyr yn holi ac yn ystyried enwai erbyn mis Hydref.

dd. **Porth ysgaden** – Cafwyd ymateb gan Wyn Williams Rheolwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd. Cafwyd ar ddeall fod trafodaeth yn parhau rhwng y Cyngor a Stad Cefnamwlch.

e. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Dywedodd Chris Brady ei fod wedi trafod hefo Dafydd Wyn Finch a bod addewid pendant o dir wedi ei roi, ond y bydd holl gyfrifoldebau yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Bydd y Clerc yn holi beth fydd y camau neaf.

5. Gohebiaeth:

**a. Lloches Bws Tudweiliog –** Derbynwyd ebost gan Caradog Williams adran Priffyrdd y Cyngor yn ein gwybyddu fod cyflwr lloches bws y pentref mewn cyflwr gwael – bydd Gareth Jones yn holi cwmniau a allai ei drwsio.

**b. Siec ICO £40.00 –** Cafodd y Clerc ganiatad i'w thalu.

**c. Siec Zurich £390.63 –** Cafodd y Clerc ganiatad i'w thalu.

**Ch. Siec Cyngor Gwynedd £204.00 –** Cafodd y Clerc ganiatad i'w thalu.

**d. Archwyliad Allanol Audit Wales –** Adroddodd y Clerc fod Cyngor Cymuned Tudweiliog yn derbyn archwyliad llawn eleni – mae'r gwaith papur wedi ei gyflwyno i'r Archwylwyr.

**dd. Ail mabwysiadu plisiau –** Fe ail mabwysiadwyd holl bolisiau'r Cyngor Cymuned.

**e. Cais Cynllunio mis Awst C22/0546/46/CR Rhent, Tudweiliog -** Cefnogi

**f. Cais Cynllunio C22/0718/46/dt Gwelfryn Dinas -** Cefnogi

**ff. Cais Cynllunio C22/0711/46/DT Garreg Lwyd Porth Colmon –** Dim sylw

**g. Rhannu'r praesept –** Cyflwynodd y Clerc maentolen i'r Cynghorwyr a penderfynnwyd rhannu fel a ganlyn:-

Mynwent Dinas - £100.00
Mynwent Tudweiliog - £100.00
Eglwysi Bro Madryn - £300.00

**6. Unrhyw fater arall-**

**a. Symud Diffib Tudweiliog –** Bydd y Clerc yn holi Siwsan Griffith

**b. Coeden yn tyfu I'r lon B4117 Beudu Bigyn**

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 10fed Hydref 2022 am 7.30yh